Tîm Comisiynu Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

ADRODDIAD MONITRO CYTUNDEB

Enw/Cyfeiriad y Darparwr: Woodland Lodge, Trelyn, Coed Duon

Dyddiad/Amser yr Ymweliad: 2 a 7 Awst 2018

Swyddog(ion) a fu'n Ymweld: Caroline Roberts, Swyddog Monitro Cytundebau, CBS Caerffili

Yn bresennol: Karen Lashbrook, Rheolwr y Cartref

1. Cefndir

1.1 Mae Woodland Lodge yn gartref preswyl i unigolion gydag anableddau dysgu. Gillian Burgwyn yw'r perchennog ac mae'n ddarparwr cofrestredig ym mwrdeistref Caerffili. Karen Lashbrook yw rheolwr y cartref. Ceir cartref arall cysylltiedig, hefyd o fewn bwrdeistref Caerffili, ac mae rheolwyr y ddau gartref mewn cyswllt rheolaidd ac yn darparu cefnogaeth i'w gilydd.

1.2 Mae Woodland Lodge wedi'i leoli yn Nhrelyn, mewn bynglo sengl. Mae gardd fawr yn rhan o'r eiddo, ac mae'r preswylwyr yn ei mwynhau, gan ddibynnu ar y tywydd. Mae'r cofrestriad yn cynnwys pedwar oedolyn, tri gydag anabledd dysgu ac un gyda phroblem iechyd meddwl. Ar adeg yr ymweliad, roedd tri phreswylydd, a phob un ohonynt yn cael eu hariannu gan yr Awdurdod Lleol.

1.3 Nid yw Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn unrhyw gwynion ynghylch y gwasanaeth ac ni fu unrhyw gyfeiriadau diogelu yn y flwyddyn ddiwethaf chwaith.

1.4 Ar ddiwrnod yr ymweliad, cafodd y swyddog monitro gyfle i gwrdd â'r Rheolwr, staff gofal, a sgwrs gyda'r tri pherson sy'n byw yn Woodland Lodge.

1.5 Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, bydd camau adfer a datblygu yn cael eu rhoi i'w cwblhau gan y darparwr. Camau adfer yw'r rhai sy'n rhaid eu cwblhau (yn ôl deddfwriaeth) ac mae camau datblygu yn argymhellion arfer da.

2. Argymhellion Blaenorol

2.1 Camau adfer

2.1.1 Staff i gwblhau cwrs gloywi cyn gynted â phosibl mewn hyfforddiant nad yw'n orfodol, yn enwedig yn ymwneud ag Epilepsi. Os nad oes modd canfod cyrsiau trwy adran hyfforddiant yr awdurdod lleol, bydd angen archwilio opsiynau eraill. (Safon Ofynnol Genedlaethol 26.1) **Amserlen**: O fewn chwe mis o ddyddiad yr adroddiad hwn. **Canfyddiadau: Heb ei gyflawni** Cynhaliwyd trafodaeth gyda Thîm

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Datblygu'r Gweithlu Blaenau Gwent a Chaerffili er mwyn iddynt gynorthwyo â'r gofynion.

2.1.2 Ffeiliau staff i gynnwys prawf adnabod gan gynnwys ffotograff diweddar. (Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002, Atodlen 2, pwynt 1.) **Amserlen**: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau: Wedi'i gyflawni** Gwelwyd ffotograffau staff ar y ddwy ffeil a welwyd.

2.1.3 Staff i dderbyn goruchwyliaeth amserol ac iddi gael ei chofnodi'r ffurfiol. (Safon Ofynnol Genedlaethol 24) **Amserlen**: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau: Wedi'i gyflawni** Mae staff bellach yn derbyn goruchwyliaeth amserol.

2.1.4 Sicrwydd Ansawdd i fod yn fwy effeithiol wrth sicrhau adborth manwl gan breswylwyr, perthnasau a rhanddeiliaid (h.y. Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu, gweithwyr proffesiynol eraill dan sylw). (Safon Ofynnol Genedlaethol 28) Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau: Heb ei gyflawni.** Dosbarthwyd holiadur Sicrwydd Ansawdd ym mis Gorffennaf 2018 i'r teulu, nyrsys a swyddogion adolygu. Nid oedd adroddiad wedi'i gwblhau ar adeg yr ymweliad.

2.1.5 Cynlluniau Gwasanaeth i ardystio ymgysylltiad gan y preswylwyr a/neu eu cynrychiolwyr teuluol. Llofnodion priodol i ardystio ymgysylltiad. (Safon Ofynnol Genedlaethol 6.5) Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau: Heb ei gyflawni.** Gweler prif gorff yr adroddiad.

2.1.6 Woodland Lodge i gynnal mwy o weithgareddau gyda phreswylwyr er mwyn darparu symbyliad (Safon Ofynnol Genedlaethol 14.1) **Amserlen**: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau: Wedi'i gyflawni.** Gweler prif gorff yr adroddiad.

2.2 Camau datblygu

2.2.1 Cedwir unrhyw ganmoliaeth a dderbynnir at ddibenion sicrhau ansawdd, ac mae canmoliaeth ar lafar yn cael ei chofnodi i ychwanegu at y broses hon yn ogystal. **Canfyddiadau: Heb ei gyflawni.** Gweler prif gorff yr adroddiad.

3. Canfyddiadau

3.1 Dogfennaeth

3.1.1 Roedd yr holl ddogfennaeth yn cael ei storio'n ddiogel.

3.1.2 Fel rhan o'r broses fonitro, archwiliwyd ffeiliau tri phreswylydd.

3.1.3 Roedd y ffeiliau'n cynnwys Cynlluniau Personol manwl, a oedd yn disgrifio cyfathrebu, patrymau cysgu a gofal personol unigolyn ac yn y blaen (yr hyn y gall yr unigolyn ei wneud neu'r hyn sydd angen anogaeth/cymorth). Roeddynt yn amlinellu'r hyn y mae unigolion yn ei fwynhau, a'r hyn y maent yn ei hoffi/ddim yn ei hoffi. Er bod y cynlluniau'n fanwl, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod yr unigolion neu eu cynrychiolwyr wedi cynorthwyo gyda datblygiad y cynlluniau.

3.1.4 Ni welwyd asesiadau cyn derbyn ar y ffeiliau; er mae dau unigolyn sy'n byw yn Woodland Lodge wedi bod yno ers 1999 ac un ers 2015.

3.1.5 Arsylwyd asesiadau risg, ac ar gyfer un gŵr, hysbyswyd y staff ynghylch y trigeri i fod yn ymwybodol ohonynt yn sgil rhai ymddygiadau a pha gamau y dylai'r staff eu cymryd er mwyn lleihau unrhyw drallod neu bryder.

3.1.6 Cynhelir adolygiadau yn amserol, gyda'r adolygiadau diwethaf yn cael eu cynnal ym mis Mehefin 2018. Caiff newidiadau priodol mewn anghenion gofal eu cofnodi h.y. newidiadau i'r slingiau a gaiff eu defnyddio, newidiadau i anghenion ymolchi a newid padiau.

3.1.7 Mae'r cofnodion dyddiol a gaiff eu cwblhau gan staff yn adlewyrchu'r meysydd a nodir yn y cynlluniau personol; felly yn darparu tystiolaeth bod trigolion yn derbyn cymorth i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r cofnodion yn dangos y darperir gofal personol mewn ffordd sy'n diwallu anghenion unigol, h.y. gofal y geg, sut mae staff yn ymateb i'r ymddygiad a welir, defnyddio hoist.

3.1.8 Mae canlyniadau/nodau y mae pobl yn anelu atynt, er enghraifft sicrhau bod unigolyn yn datblygu ei sgiliau rhyngbersonol a mynd allan i’r gymuned.

3.1.9 Mae'r ffeiliau'n dangos bod staff yn Woodland Lodge yn gwneud cyfeiriadau priodol i asiantaethau allanol a allai fod mewn sefyllfa i gynorthwyo'r unigolion neu'r staff. Cyfeiriadau at y meddyg teulu, ciropodydd, deintydd, seiciatrydd ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o ran Epilepsi a Diabetes.

3.1.10 Nid yw bob ffeil yn cynnwys cytundeb ysgrifenedig gyda'r teulu/cynrychiolwyr i gysylltu â nhw os bydd argyfwng. Trafodwyd hyn gyda'r Rheolwr a nododd mai dim ond un person sydd â chytundeb o'r fath gan fod eu perthynas yn byw yn yr Alban. Fodd bynnag, cynghorwyd y Rheolwr i sicrhau cytundeb ar gyfer y ddau breswylydd arall.

3.1.11 Roedd Cynlluniau Dianc mewn Argyfwng Personol mewn lle ar gyfer pob un o'r preswylwyr.

3.2 Sicrwydd ansawdd

3.2.1 Rhannwyd copi o'r Adroddiad Sicrwydd Ansawdd ar gyfer 2017/2018 gyda'r swyddog monitro, ac mae'r adroddiad yn amlinellu hyfforddiant staff, canlyniadau o'r arolygon a gynhaliwyd, cwynion ac yn y blaen.

3.3 Staffio a hyfforddiant

3.3.1 Mae gan y cartref gyfradd dda o ran cadw staff, gyda'r Rheolwr yn nodi bod un aelod o staff wedi dychwelyd yn ddiweddar ar ôl bod i ffwrdd am resymau personol.

3.3.2 Roedd meysydd o bryder o ran absenoldeb salwch. Ar adegau pan fydd staff yn absennol oherwydd salwch, bydd aelodau eraill y staff yn cymryd eu sifftiau. Nid yw'r cartref erioed wedi defnyddio staff asiantaeth.

3.3.3 Gwelwyd ffeiliau dau aelod o staff, ac roedd 2 eirda ysgrifenedig ynddynt, Telerau ac Amodau, a ffurflen gais fanwl; serch hynny, nid oedd cofnod o'r cyfweliad yn yr un o'r ddwy ffeil. Roedd gan un ffeil ffotograff cyfredol o'r aelod o staff, ond nid oedd ffotograff yn yr ail.

3.3.4 Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys gwiriad DBS diweddar, ac roedd angen adnewyddu un ar ddiwedd Awst 2018. Gwelwyd hefyd dystysgrifau hyfforddi yn y ffeiliau hyn.

3.3.5 Mae staff yn derbyn goruchwyliaeth 1:1 a chynhelir hyn bob 3 mis.

3.3.6 Mae'r staff newydd fynychu gweithdy gyda nyrsys ynghylch anafiadau i'r ymennydd, a hefyd sesiwn Hyfforddiant ar Nam ar y Golwg a gynhelir gan Weithiwr Adsefydlu'r Awdurdod Lleol, o'r Tîm Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau.

3.3.7 Gwelwyd y Matrics Hyfforddiant gan y swyddog fu'n ymweld, a nodwyd bod angen cyrsiau gloywi ar 3 aelod o staff yn ymwneud â Meddyginiaeth, Rheoli Heintiau ac Epilepsi. Fodd bynnag, fel y nodwyd ynghynt, mae trafodaeth yn digwydd ar hyn o bryd ynghylch hyfforddiant Epilepsi.

3.4 Bywyd yn y cartref

3.4.1 Yn ystod y cyfarfod Monitro diwethaf a gynhaliwyd yn 2017, trafodwyd bywyd o fewn a thu allan i’r cartref yn helaeth. Dywedodd y Rheolwr wrth y swyddog monitro fod y bobl sy’n byw yno’n mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau hwyliog ac ymarferol. Dywedodd y Rheolwr fod yr unigolion yn mynd allan i siopa, yn cynorthwyo o gwmpas y tŷ a’r ardd, yn mynd ar dripiau a gwyliau. Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfod Monitro a gynhaliwyd yn 2017, ychydig iawn o dystiolaeth oedd ar gael bod gweithgareddau’n cael eu cynnal gyda’r preswylwyr ac fe drafodwyd hyn gyda’r Rheolwr.

3.4.2 Er bod rhai o'r trigolion yn cynorthwyo gyda'r fwydlen wythnosol, tasgau domestig a pharatoi bwyd, roedd angen mwy o ysgogiad i'r preswylwyr.

3.4.3 Yn ystod yr ymweliad monitro diweddar, roedd yn galonogol nodi bod y preswylwyr yn gwneud mwy o weithgareddau, a nodwyd nad yw'r staff yn cofnodi gweithgareddau o'r fath yn iawn. Bellach mae gan un gŵr ei gerbyd wedi'i addasu sy'n golygu bod ei deulu yn ei chael hi'n haws i fynd ag ef allan i'r gymuned. Mae hefyd yn galluogi'r tri phreswylydd i fynd allan ar yr un pryd drwy ddefnyddio cerbyd y cartref sydd wedi'i addasu.

3.4.4 Yn ystod yr ymweliad, tra'n sgwrsio gyda'r tri phreswylydd, roedd un gŵr yn aros i fynd allan yn y car. Bellach mae taflenni gweithgareddau dyddiol yn cael eu cwblhau gan y staff, ac maent yn cofnodi ymweliadau â'r parciau lleol (Cwm Darran a Bryn Bach), ymweliadau â Chaerdydd, Asda, cael bath ymlaciol gyda swigod, canu/dawnsio, trin dwylo ac ewinedd, helpu gyda thasgau domestig, celf a chrefft ac yn y blaen.

3.4.5 Mae ffotograffau i'w gweld yn ardal y gegin ac mewn albymau lluniau, sy'n dangos y gweithgareddau mae unigolion wedi cymryd rhan ynddynt.

3.4.6 Mae unigolion yn cael cynnig dewis o fwyd ac yn cael cynnig rhywbeth arall os nad yw’r unigolyn yn dymuno bwyta’r hyn sydd ar y fwydlen. Mae bwydlen pedair wythnos gan y cartref ac mae staff yn gwybod beth mae unigolion yn ei hoffi/ddim yn ei hoffi. Caiff pob un o'r preswylwyr gyfle i helpu gyda dewis y bwyd sy'n mynd ar y rhestr siopa.

3.4.7 Nid oes unrhyw bryderon ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ynghylch diet unrhyw unigolyn. Mae un unigolyn yn mwynhau salad a bwyd bys a bawd ac yn mwynhau bwydydd â blas cryf h.y. salami, gercinau. Mae pob unigolyn yn mwynhau ffrwythau ac felly'n mwynhau diet cytbwys.

3.4.8 Mae gardd brydferth tu allan i’r eiddo gyda chymdogion cyfeillgar o’i gwmpas, ac mae'r Rheolwr yn disgrifio'r gymuned leol fel un cyfeillgar.

3.4.9 Rhoddodd un preswylydd gwrywaidd ganiatâd i’r swyddog monitro fynd i mewn i’w ystafell wely. Roedd yr ystafell i’w gweld yn lân ac wedi'i haddurno yn ôl chwaeth yr unigolyn ac nid oedd unrhyw arogleuon amhleserus. Gwelwyd bod yr ystafell yn cynnwys pethau personol fel modelau ceir bach sef rhywbeth mae'r unigolyn yn ei fwynhau.

3.4.10 Dywedodd y Rheolwr fod teuluoedd y bobl sy’n byw yn Woodland Lodge yn cael cymaint o fewnbwn i fywydau’r preswylwyr ag y maent yn ei ddymuno. Mae gan y cartref bolisi drws agored, ac felly croesewir ymwelwyr ar unrhyw adeg ac nid oes cyfyngiadau ar niferoedd.

3.4.11 Ar hyn o bryd nid oes gan y cartref unigolyn sy'n cyfathrebu yn Gymraeg. Pan ofynnwyd sut y gweithredir y Cynnig Rhagweithiol, nododd y Rheolwr ei bod hi wedi derbyn hyfforddiant ar y Cynnig Rhagweithiol, ond ni fyddai'n bosibl darparu gofal cyson drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

3.4.12 Mae Woodland Lodge yn parhau i fod â gradd Hylendid Bwyd pedwar (arolygwyd ddiwethaf yn 2017).

3.5 Offer

3.5.1 Mae cyfarpar codi ar gael i bawb sy'n byw yn y cartref. Ar hyn o bryd mae 2 beiriant codi symudol ac 1 peiriant trac nenfwd yn cael eu defnyddio. Caiff cyfarpar codi ei wasanaethu bob 6 mis gan Cymru Healthcare, a chaiff y cadeiriau olwyn eu gwasanaethu gan y cwmni sy'n eu cyflenwi. Bydd dau o'r preswylwyr yn cael cadeiriau olwyn newydd yn fuan, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu un i'r trydydd preswylydd.

3.5.2 Mae gan bob un o'r cadeiriau olwyn sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, blatiau troed a gwregysau diogelwch.

3.5.2 Bydd y swyddog cynnal a chadw yn cynnal gwiriadau mewnol cyffredinol a thrydanwyr lleol yn cynnal profion PAT. Mae'r offer i gyd wedi'i yswirio ac felly, os bydd nam ar unrhyw offer, caiff offer newydd eu prynu yn eu lle.

3.6 Iechyd a Diogelwch

3.6.1 Ni chofnodwyd unrhyw ddamweiniau/digwyddiadau yn ystod y mis diwethaf.

3.6.2 Cwblhawyd yr asesiad tân diwethaf ar 19 a 27 Gorffennaf 2018, gydag un argymhelliad; sef y dylid gosod larwm tân ychwanegol yn yr ystafell haul, ac mae hyn wedi'i weithredu.

3.6.3 Caiff larymau tân eu profi bob wythnos.

3.6.4 Cynhelir ymarferion tân a gwiriadau cymhwysedd, a nododd y Rheolwr fod yr adran dân yn fodlon â'r ymarferion hyn.

3.7 Cwynion a Chanmoliaeth

3.7.1 Nid yw'r cartref wedi derbyn unrhyw gwynion yn y flwyddyn ddiwethaf a phetai cwyn yn dod i law, mae polisi cwynion ar waith. Byddai'r holl staff yn cael eu hysbysu ynghylch y mater oni bai ei fod yn ymwneud ag aelod unigol o staff; yna byddai'r mater yn cael ei drafod yn ystod sesiynau goruchwyliaeth.

3.7.2 Dywedodd y Rheolwr na dderbyniwyd unrhyw ganmoliaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Sicrwydd Ansawdd yn nodi y derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan aelodau teulu/cynrychiolwyr ynghylch proffesiynoldeb y staff ac ansawdd y gofal a ddarperir. Atgoffwyd y Rheolwr i gasglu unrhyw ganmoliaeth a dderbynnir a'i rhannu gyda'r Awdurdod Lleol.

3.8 Cwestiynau i'r Rheolwr a'r Staff

3.8.1 Yn ystod yr ymweliad monitro, siaradodd y swyddog fu ar ymweliad ag un aelod o'r staff gan ofyn cwestiynau o ran y gwaith yn Woodland Lodge. Roedd yr aelod o staff yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am bob un o'r 3 phreswylydd oedd yn byw yn y cartref. Roedd gwybodaeth gan yr aelod o staff am sut y mae hi'n gwybod pan fydd unigolyn yn gofidio neu wedi cynhyrfu a sut bydd yn ymdrin â'r sefyllfa, h.y. eu tynnu nhw oddi wrth y sefyllfa a chynnig cysur/cwtsh. Gall un o'r preswylwyr gynhyrfu oherwydd ei fod yn cofio damwain, felly mae'r aelod o staff yn cynnig cysur a gan fod y person yn mwynhau canu, mae'n annog cyd-ganu cân ac mae hyn fel arfer yn codi calon yr unigolyn.

3.8.2 Mae gan bob un o'r preswylwyr anawsterau cyfathrebu, ac mae'r aelod o staff yn egluro pa arwyddion maen nhw'n chwilio amdanynt wrth gyfathrebu â'r trigolion, h.y. amrantiadau sydyn.

3.8.3 Dywedwyd wrth y swyddog ymweld fod y Rheolwr yn "torchi llewys" ac yn helpu gyda'r dyletswyddau.

3.8.4 Pan ofynnwyd wrth aelod o staff beth fyddai hi'n ei wneud pe byddai ganddi bum munud sbâr, dywedodd wrth y swyddog ymweld y byddai'n mynd â'r preswylwyr allan i'r ardd, gan ddibynnu ar y tywydd, a chynnig lolipop rhew iddyn nhw, neu fynd ati gydag un o'r trigolion i olchi ei geir bach, gan fod hyn yn rhywbeth y mae'n ymfalchïo ynddo ac yn ei fwynhau.

3.8.5 Pan ofynnwyd sut buasent yn herio cydweithiwr pe baent o'r farn bod ei arferion yn wan, dywedodd yr aelod o staff y byddai'n trafod ei phryderon gyda'i chydweithiwr a rhoi gwybod i Reolwr y cartref.

3.8.6 Treuliodd y swyddog ymweld amser gyda'r Rheolwr er mwyn trafod rheolaeth ar y cartref. Dywedodd y Rheolwr nad oes gan y cartref deledu cylch cyfyng ac nid oedd unrhyw bryderon o ran yr eiddo h.y. defnyddio offer, dŵr poeth.

3.8.7 Caiff y Rheolwr gefnogaeth ei chydweithiwr sy'n rheoli'r cartref cysylltiedig, ynghyd â'r Unigolyn Cofrestredig. Er nad yw'r Unigolyn Cofrestredig yn byw'n lleol, mae'n cynnig cymorth ac arweiniad dros y ffôn, neu pan fo angen, bydd yn teithio i'r cartref. Ar adeg yr ymweliad monitro, roedd y Rheolwr a'r Unigolyn Cofrestredig yn trafod trefnu ymweliadau wedi'u rheoleiddio at y dyfodol. Roedd yr ymweliad diwethaf gan yr Unigolyn Cofrestredig ym mis Gorffennaf 2018.

3.8.8 Mae pob cais Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn gyfredol.

3.8.9 Petai aelod newydd o staff yn cael ei gyflogi, cânt eu gwahodd yn y lle cyntaf am gyfweliad, ac yma cânt eu cyflwyno i'r preswylwyr.

3.8.10 Gwelwyd polisïau a gweithdrefnau gan y swyddog ymweld ac adolygwyd pob gweithdrefn ym mis Mawrth 2018; felly caiff yr adolygiad nesaf ei gynnal yn 2019. Caiff y polisïau eu hadolygu bob blwyddyn oni bai y nodir unrhyw newidiadau.

4. <u>Camau Adfer / Datblygu</u>

4.1. Camau adfer

4.1.1 Asesiad Risg ar gyfer defnyddio rheiliau gwely **Amserlen:** Ar unwaith

4.1.2 Unigolion/cynrychiolwyr i gymryd rhan yn natblygiad y Cynlluniau Personol a sicrhau llofnodion fel tystiolaeth o gyfranogiad **Amserlen:** O fewn tri mis ac yn barhaus

4.1.3 Cytundeb teulu/cynrychiolwyr i fod yn weithredol o ran cysylltu â nhw mewn argyfwng **Amserlen:** O fewn dau fis ac yn barhaus

4.1.4 Cadw cofnodion cyfweliadau ar ffeiliau staff. **Amserlen:** Ar unwaith

4.1.5 Cadw ffotograffau staff ar y ffeil. **Amserlen:** Ar unwaith

4.1.6 Bylchau mewn cyflogaeth i'w llenwi gydag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. **Amserlen:** Ar unwaith

4.2.1 Camau datblygu

4.2.1 Trafodaethau DNACPR i'w cynnal gydag unigolion neu'r teulu/cynrychiolwyr.

4.2.2 Y cartref i rannu unrhyw ganmoliaeth a geir o ran darparu gwasanaethau gyda'r Awdurdod Lleol.

5. Casgliad

5.1 Roedd yr amgylchedd cartref yn Woodland Lodge yn wresog, braf a chroesawgar.

5.2 Roedd yn glir bod perthynas ofalgar rhwng y staff a'r preswylwyr, ac awyrgylch ymlaciedig a braf yn ystod y dydd. Mae'r Rheolwr yn edrych yn barhaus am ffyrdd o wella'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu ac yn agored i unrhyw syniadau newydd a allai wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r rheini sy'n byw yn Woodland Lodge.

5.3 Bydd monitro'n parhau'n unol â'r cynllun, a hoffai'r swyddogion monitro ddiolch i bawb dan sylw am y croeso a gafwyd yn y cartref.

Awdur: Caroline Roberts
Teitl swydd: Swyddog Monitro Cytundebau
Dyddiad: 21 Awst 2018

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i breswylwyr y dyfodol a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn am eu gweld.